# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 28 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Denu Buddsoddiad Economaidd i'r Canolbarth

**C11 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r Canolbarth o ran denu buddsoddiad economaidd er mwyn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a thlodi? (OAQ18002)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Yn rhan o becyn cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu diwydiant a busnesau ledled Cymru, yr ydym wedi ychwanegu, yn ddiweddar, grant buddsoddi'r Cynulliad, sydd ar gael i bob menter fach a chanolig ei maint sy'n gymwys, gan gynnwys y rhai sydd yn y Canolbarth. Mae gwasanaeth ymgynghori Sbardun Cymru, sy'n cael ei hyrwyddo gan Awdurdod Datblygu Cymru, wedi cynorthwyo Stadco yn Llanfyllin, Powys, i ennill contract gwerth £1.5 miliwn ar gyfer Range Rover newydd.

### Cronfeydd Dŵr Newydd yn y Canolbarth

**C12 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog hyd yma gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r adroddiadau bod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer cronfeydd dŵr newydd yng nghanolbarth Cymru i gyflenwi dŵr i dde-ddwyrain Lloegr? (OAQ18001) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi trafod y mater hwn â'r Ysgrifennydd Gwladol o gwbl. Gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cynulliad y mae'r prif bwerau mewn perthynas â chymeradwyo datblygiad o'r fath, a hwy hefyd sy'n bennaf gyfrifol. Fel y dywedodd Sue Essex wrth yr Aelodau yr wythnos diwethaf, mae rheolwr gyfarwyddwr Dŵr Hafren Trent wedi ein sicrhau nad yw ef, na'i gwmni na Water UK yn datblygu unrhyw gynlluniau i ehangu cronfa ddŵr Craig Goch.

### Pwerau Cynulliadau Rhanbarthol Arfaethedig Lloegr i Godi Trethi

**C13 Phil Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiffyg pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i godi trethi mewn perthynas â phwerau'r cynulliadau rhanbarthol arfaethedig yn Lloegr i godi trethi? (OAQ18014)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd y cynulliadau rhanbarthol arfaethedig yn gallu hawlio cyfran o'r dreth gyngor yn yr un modd ag y mae'r awdurdodau lleol. Mae cymharu hynny â'r Cynulliad yn hollol annilys.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ17992) yn ôl.*

### Effaith Polisïau'r Llywodraeth ar Orllewin De Cymru

**C15 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr effaith y mae ei bolisïau wedi'u cael ar ranbarth Gorllewin De Cymru? (OAQ18003)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithio'n gadarnhaol ar Orllewin De Cymru, fel y maent ledled Cymru. Er enghraifft, yr ydym wedi darparu £26.2 miliwn gwerth o grant trafnidiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf i wella trafnidiaeth yng Ngorllewin De Cymru, gan gynnwys camau i wella diogelwch ar y ffyrdd a darparu cynlluniau Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Yn

ogystal, mae ffigurau'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra dros y flwyddyn ddiwethaf wedi disgyn o 6.1 y cant i 5.1 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot, o 4.6 y cant i 3.8 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac o 4.8 y cant i 4.0 y cant yn Abertawe.